

Cyngor Tref Criccieth

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Tref a gynhaliwyd am 7.00 o'r gloch, nos Fawrth , **12 Mawrth 2019** yn Siambr y Cyngor, Stryd Fawr, Criccieth.

Gweddi agoriadol

1-03/19: Presennol

Cadeirydd : Cyng. Sian Williams

Cyng. Robert Cadwalader; Cyng. Phil Jones; Cyng. Dafydd Lloyd; Cyng. Eirwyn Williams; Cyng. Wayne Roberts; Cyng. William A Evans; Cyng. Robert T Price; Cyng. Dr Ian Rees; Cyng. Dr E Tudor Jones; Cyng. Angela Hughes

Clerc – Dr Catrin Jones.

Croesawyd y Cyng. Angela Hughes i'w chyfarfod cyntaf ers ei chyfethol i'r Cyngor Tref - nodwyd ei bod wedi cwblhau'r ffurflen derbyn swydd ym mhresenoldeb y Clerc a'r ffurflen gofrestr diddordebau.

2-03/19 Ymddiheuriadau:

Cyng. Elizabeth George

3-03/19: Datgan diddordeb

4-03/19 Cadarnhau cofnodion mis Chwefror 2019

Cadarnhawyd a llofnodwyd y cofnodion yn unol â'r gyfraith.

5-03/19 Eitemau brys ac er gwybodaeth (trwy law'r Cadeirydd/Clerc)

Materion er gwybodaeth yn unig – ni chaniateir penderfyniadau

- a. Roedd e-bost wedi dod i law yn nodi bod Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru wedi bod yn adolygu'r drefn ar gyfer archwiliadau'r sector gyhoeddus yng Nghymru pan fydd contractau cyfredol yn dod i ben yn 2020 - ac wedi penderfynu peidio â gwahodd tendrau am archwiliadau tu hwn i 2020. Roedd y penderfyniad ar sail nifer o ffactorau ac un o'r rhesymau oedd yr angen i sicrhau bod y Swyddfa Archwilio a'r Archwilydd Cyffredinol yn cwrdd â'u dyletswyddau dan Safonau'r Gymraeg; hefyd roeddent wedi ystyried y posibil o newid i siâp y sector ac ail-gyflunio yn y dyfodol. -
- b. Roedd gohebiaeth wedi dod i law gan y Cyng. Michael Parry o Gyngor Tref Pwllheli ynglŷn ag israddio Ysbyty Gwynedd, sef cau adran fasciolar brys. Roedd yr ohebiaeth wedi ei gylchredeg cyn y cyfarfod er gwybodaeth a phob un o'r Cynghorwyr yn bresennol yn siomedig gyda'r bwriad ac yn gwrthwynebu'r israddio hwn. Bydd y Clerc yn sgwennu ymateb i nodi barn y Cynghorwyr.

6-03/19: Gohebiaeth

- a. Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Môn- Ymgynghoriad Cyhoeddus
Canllawiau Cynllunio Atodol

- Ail-adeiladu Tai a Throsi Adeiladau yng Nghefn Gwlad
- Ymrwymadau Cynllunio

Chwefror 2019

Penderfyniad: Derbyn y wybodaeth

- b. Cyngor Gwynedd - Cynllun Partneriaethau 2019-20 a 2020-21 - e-bost 15 Chwefror 2019

Er mwyn cael sefydlogrwydd a threfniadau effeithlon, roedd Cyngor Gwynedd yn gofyn i gynghorau cymuned a thref gytundebu am ddwy flynedd ar gyfer cadw toiledau cyhoeddus ar agor - sef 2019-20 a 2020-21. Roedd y Cyngor Tref wedi neilltuo swm o £6,000 ar gyfer hyn yn 2019-20 ac roedd y dystiolaeth o'r ymgynghoriad sydd wedi cymryd lle gyda'r gymuned ar gyfer y Cynllun Cymunedol yn dangos y gefnogaeth a'r pwysigrwydd o gadw'r toiledau ar agor.....

Penderfyniad: I gytundebu ar gyfer cadw'r toiledau ar agor am y cyfnod 2019-20 a 2020-21.

- c. Un Llais Cymru - Adnewyddu Manylion Aelodaeth -e-bost 12 Chwefror 2019

Roedd gohebiaeth wedi ei gylchredeg am fanteision aelodaeth Un Llais Cymru -yn dangos yr hyn bu Un Llais Cymru yn ei wneud ar ran y sector yn ystod blwyddyn ariannol 2018-19 a beth y gellir disgwyl os bydd y cyngor yn aelod - bydd y gost yn £308 ar gyfer 2019/20 ar sail nifer y tai yng Nghriccieth

Penderfyniad: . - Roedd yn wasanaeth gwerthfawr i'w gael a chytunwyd i adnewyddu aelodaeth y Cyngor Tref gydag Un Llais Cymru ar gyfer 2019/20.

- d. Un Llais Cymru - Seremoni Gwobrau Arfer Arloesol Blynyddol 28 Mawrth 2019 - e-bost 28 Chwefror 2019

Roedd gwahoddiad i fynychu'r gynhadledd. Roedd y Cyngor yn falch iawn i nodi bod y Cyngor Tref wedi ei ddewis i dderbyn gwobr Treftadaeth ac wedi'i wahodd i gyflwyno ar brosiect "Cofio Cyfraniad Criccieth". Cytunwyd ar gynrychiolaeth i fynd i'r gynhadledd gan gynnwys gwahoddiad i'r rheolwr prosiect.

Penderfyniad: Cytunwyd ar gynrychiolaeth i fynd i'r gynhadledd gan gynnwys gwahoddiad i'r rheolwr prosiect.

- e. Partneriaethau Llywodraeth Leol - Cefnogaeth Ariannu ar gael yn 2019-20 -e-bost 20 Chwefror 2019

Nodwyd bod cyllideb ar gael i sefydlu cyd-drefniadau ar gyfer nifer o themâu:

- Ymgysylltu a'r gymuned
- Cynyddu cyfranogiad dinasyddion ac ymgysylltu a democratiaeth leol
- Gweithio ar y cyd i ddarparu gwasanaethau gan gynnwys ystyried sgôp rhannu swyddogaethau cefn swyddfa

Dyddiad cau 12 Ebrill –

Penderfyniad: Nid oedd y Cyngor Tref mewn lle i wneud cais eleni a chytunwyd i roi ar agenda'r Cyngor i'w drafod ym mis Rhagfyr. Cytunwyd hefyd i ofyn am esiamplau o arfer dda yn y sector a hefyd i ofyn am drafodaeth ym Mhwyllgor Ardal Un Llais Cymru.

- f. Mynwent Newydd Llanystumdwy – gwahoddiad i ethol aelod i'r Pwyllgor - llythyr 26 Chwefror 2019

Roedd llythyr wedi ei dderbyn yn gwahodd y Cyngor Tref i ethol aelod i'r Pwyllgor sydd fel arfer yn cwrdd unwaith y flwyddyn

Penderfyniad: I ethol y Cyng. Dafydd Lloyd yn aelod o'r Pwyllgor.

- g. Network Rail – e bost 27 Chwefror 2019

Roedd llythyr wedi ei dderbyn gan Network Rail yn gofyn i fynychu cyfarfod nesaf y Cyngor ym Mis Ebrill i drafod ei gynlluniau ar gyfer croesfan lefel Merllyn.

Penderfyniad: Cytunwyd i gael cyfarfod hanner awr ganddynt am 6.30 pm ar 9 Ebrill ac i ofyn iddynt am bapur trafod ymlaen llaw.

- h. Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol - e-bost 18 Chwefror 2019.

Roedd yr adroddiad terfynol wedi ei gylchredeg. Nodwyd bod y Cyngor wedi ystyried yr adroddiad drafft ac wedi gwneud penderfyniadau ar sail hyn yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2019-20 - gan gynnwys y £150 at gostau a threuliau os nad yw Cyngorwyr yn dewis peidio â'i dderbyn..Roedd fyny i bob Cyngor benderfynu:

- Pryd fydd taliad yn cael ei wneud i'r aelod
- Sut i rannu'r cyfanswm i nifer o daliadau llai

- A ddylid adfer unrhyw daliadau i aelodau sy'n gadael eu swyddi yn ystod y flwyddyn ariannol, ac os felly sut?

Penderfyniad: Cytunwyd i wneud taliad o £150 i'r Cyngorwyr - os nad ydynt yn dewis peidio â'i dderbyn - ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

7-03/19: Ceisiadau Cynllunio

Dim ceisiadau wedi dod i law

8-03/19: Diweddariad Cyllid 2018-19

Roedd ffigurau fyny at ddiwedd Chwefror 2019 gan gynnwys y daenlen wedi eu cylchredeg. Nodwyd bod £44,261.05 wedi'i wario o'r gyllideb arferol fyny at ddiwedd Chwefror (£2,670.00 TAW hyd yma), a bod costau Mawrth 2019 eto i ymddangos ar y cyfrifon. Byddai modd cael ad-daliad o'r TAW. - Roedd £9,273.04 o'r £9885.00 wedi ei ddefnyddio o'r grant Cronfa Cofio Cyfraniad Criccieth (£450.79 TAW hyd yma). Siec o £150 heb ei glirio o Ragfyr ac angen ei ganslo a chodi siec arall gan nad oedd wedi ei dderbyn. Hefyd roedd rhai taliadau i ymddangos eto.

Nodwyd y ffigwr o £46,754.34 yn y cyfrif "Community Account" a £30,447.27 yn y cyfrif cefn 'Money Manager'.

Tynnwyd sylw at y ffaith nad oedd bil wedi ei dderbyn oddi wrth Gyngor Gwynedd ar gyfer torri gwair ychwanegol yn 2018/19. Roedd hyn yn swm sylweddol (£5k) a byddai'n rhaid ychwanegu hwn at gyllideb 2019/20.

Penderfyniad: Derbyn y wybodaeth.

9-03/19: Diweddaru rhestr arwyddo sieciau'r Cyngor Tref a Rheolau Ariannol y Cyngor Tref

Roedd angen diweddaru rhestr arwyddo sieciau'r Cyngor Tref i gynnwys Cyng. Dr Ian Rees a'r Cyng. Angela Hughes. Hefyd roedd y Cyngor Tref wedi cytuno y dylid ychwanegu'r Clerc i'r rhestr ac o ganlyniad roedd angen diweddaru Rheolau Ariannol y Cyngor Tref a oedd wedi eu cylchredeg.

Penderfyniad: I drefnu bod y mandet banc yn cael ei ddiweddaru cyn gynted â phosibl i gynnwys y Cyng. Dr Ian Rees, Cyng. Angela Hughes a'r Clerc ac i gymeradwyo'r Rheolau Ariannol diwygiedig.

10-03/19 Cofrestr Asedau Cyngor Tref Criccieth 2018-19

Roedd y Cyngor wedi derbyn argymhelliad yr Archwilydd Allanol i ddiweddaru cofrestr asedau'r Cyngor i gynnwys dyddiad caffael, cost prynu a lleoliad pob ased sydd ganddo: "Dylai bod cofrestr asedau gan y cyngor i helpu sicrhau bod gwerth yr asedau a'r buddsoddiadau a gofnodir yn gywir, cyn belled â bod hynny'n bosibl, ac i sicrhau bod y cyngor yn diogelu ei asedau. Dylai'r Archwilydd Mewnol ddilysu cywirdeb cofrestr o'r fath yn ei adolygiad blynyddol o reolaeth fewnol y cyngor." Roedd y Clerc wedi diweddaru'r gofrestr ac roedd angen i'r Cyngor Tref ei ystyried a'i gymeradwyo. Byddai'r gofrestr yn cael ei adolygu gan yr Archwilydd Mewnol yn ei adolygiad blynyddol.

Penderfyniad: I gymeradwyo'r gofrestr asedau a fydd yn cael ei adolygu gan yr Archwilydd Mewnol yn ei adolygiad blynyddol ac i ddiolch i'r Clerc am ei gwaith.

11-03/19 Ceisiadau am gyfraniadau ariannol

Roedd ceisiadau pellach wedi eu cylchredeg i aelodau. Ystyriaeth o dan Adran 137 (4) (a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972:

Penderfyniad:

Urdd Gobaith Cymru – Eisteddfod yr Urdd Caerdydd a'r Fro 2019 – dim cyfraniad
Ambiwylans Awyr Cymru – dim cyfraniad.

12-03/19: Prosiect Cofio Cyfraniad Criccieth - diweddariad

- a. Nodwyd bod y Cyngor Tref ar restr fer ar gyfer gwobr arloesol Un Llais Cymru ar gyfer Menter Treftadaeth Orau (gweler hefyd cofnod 6-03/19 d) ac wedi'i wahodd i roi cyflwyniad mewn cynhadledd i'w gynnal ar 28 Mawrth 2019.
- b. Roedd prisiau wedi dod i law ar gyfer cyfieithu'r adroddiad gwerthuso i'r Saesneg a'r Clerc wedi trefnu bod Mr Cynan Jones wnaeth baratoi'r adroddiad am wneud y gwaith. Roedd y Clerc hefyd wedi cael estyniad amser gan y Loteri er mwyn cyflwyno'r gwariant terfynol ar y prosiect iddynt.
- c. Nodwyd bod gwahoddiad wedi dod i law i ddanfôn tystiolaeth i Bwyllgor Dethol Diwylliant, Chwaraeon y Tŷ Cyffredin a oedd yn cynnal ymchwiliad i sut wnaeth y Deyrnas Unedig, o dan arweinyddiaeth y Llywodraeth, nodi Canmlwyddiant diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf. Roedd y Pwyllgor yn ystyried nifer o faterion gan gynnwys sut wnaeth rhaglenni celf ymgysylltu cynulleidfaoedd newydd na fyddai wedi bod yn ymwybodol o'r cofio, sut wnaeth y digwyddiadau gyrraedd plant ysgol a phobl ifanc gyda digwyddiadau a legasi'r Rhyfel Mawr ac a wnaeth ysbrydoli unigolion/grwpiau newydd yn y gymuned i gymryd rhan a denu gwirfoddolwyr newydd i ddigwyddiadau'r canmlwyddiant. Roedd y Clerc wrthi yn paratoi tystiolaeth i'w gyflwyno i'r Pwyllgor erbyn 15 Mawrth, ac mi fydd yn cylchredeg yr adroddiad i aelodau er gwybodaeth.

Penderfyniad: Derbyn y wybodaeth.

13-03/19 Cynllun Cymunedol Criccieth – diweddariad

- a. Nodwyd bod y gwaith yn mynd ymlaen o dan gynllun Strydoedd Unigryw a bydd adroddiad manylach yn y cyfarfod nesaf – y Rheolwr Prosiect yn cydlynu'r gwaith.

Penderfyniad: Derbyn y wybodaeth.

- b. Nodwyd bod y bid i Arloesi Gwynedd o dan gynllun Peilota wedi bod yn llwyddiannus – trafodwyd y broses i ddewis un o'r 3 cwmni a oedd wedi cyflwyno tendr i'r Cyngor Tref.

Penderfyniad: . Cytunodd y Cyngor Tref i ddirprwyo'r cyfrifoldeb o ddewis cwmni i'r Is-bwyllgor Cyllid, Polisi a Rheolaethol. Cytunwyd i'r Is-bwyllgor gwrdd ar 20 Mawrth 2019 am 6.30 yr hwyr.

- c. Cynllun Cymunedol –roedd y cynllun wedi'i addasu gan Siân Shakespear yn dilyn y penderfyniad i leihau'r gweithgorau i dri ac wedi ei gylchredeg .

Penderfyniad: Cymeradwyd y Cynllun Cymunedol i'w gyfeirio at y Grŵp Llywio Cynllun Cymunedol. Etholwyd y Cyng. Angela Hughes yn aelod o'r Grŵp Llywio.

14-03/19 Dyfodol Adeilad Cyngor Tref Criccieth a'r Llyfrgell

Nodwyd bod gohebiaeth yn cymryd lle gyda'r cyfreithiwr â Chyngor Gwynedd am yr adeilad. Roedd ymateb i'w ddisgwyl gan Gyngor Gwynedd.

Penderfyniad: Derbyn y wybodaeth

15-03/19 Trafnidiaeth yng Nghriccieth – cwynion a digwyddiadau difrifol

Nodwyd bod y wybodaeth am ganlyniad yr asesiad gan Gyngor Gwynedd dal i'w ddisgwyl.

Penderfyniad: Derbyn y wybodaeth

16-03/19 Torri gwair yn y dref

Nodwyd bod y bil am y torri gwair ychwanegol gan Gyngor Gwynedd yn 2018/19 i'w ddisgwyl a bod y Clerc wedi gofyn amdano. O ganlyniad bydd angen i'r £5k cael ei drosglwyddo i gyllideb 2019/20.

Penderfyniad: Derbyn y wybodaeth a cytunol i'r £5k cael ei drosglwyddo i gyllideb 2019/20

17-03/19 Parcio yng Nghriccieth

Dim byd i'w adrodd

18-03/19 Torri coed yng Nghriccieth

Dim byd i'w adrodd.

19-03/19 Meinciau Tref Criccieth

Dim bydd i'w adrodd.

20-03/19 Llwybrau Cyhoeddus

Penderfyniad: cytuno i roi Llwybr 11 ar yr agenda ar gyfer cyfarfod nesaf y Cyngor Tref.

21-03/19 Hysbysfwrdd y Cyngor Tref

Derbyniwyd adroddiad nol o'r Is-bwyllgor Cynllunio, Trafnidiaeth a Mwynderau a oedd wedi cwrdd cyn y cyfarfod. Roedd yr Is- Bwyllgor wedi derbyn nifer o brisiau ac opsiynau gan gwmnïau gwahanol -ac yn argymhell prynu hysbysfwrdd Varicase tri drws gan Noticeboards Online Ltd- a oedd yn medru gosod yr hysbysfwrdd, tynnu a gwaredu'r un presennol. Roedd y cwmni hefyd yn cynnig 10 mlynedd o warant arno.

Penderfyniad: Derbyn argymhelliad yr Is-bwyllgor ar gyfer prynu'r hysbysfwrdd gan NoticeBoards Online Ltd ac i godi siec i dalu amdano. Hefyd cytunwyd i ddiweddarau'r Gofrestr Asedau a ystyriwyd o dan eitem 10-30/19 i adlewyrchu taliad am yr hysbysfwrdd.

22-03/19 Derbyniadau

Dim

23-03/19: Taliadau

• Cyllid y Wlad Yswiriant Gwladol(PAYE)	£72.90 (siec 101306)
• Cyflog y Clerc (Chwefror)	£659.98 (siec 101307)
• Costau Swyddfa (Clerc)	£233.34 (siec 101308)
• Costau Teithio (Clerc)	£9.90 (siec 101309)
• Cronfa'r Cadeirydd	£200.00 (siec 101310)
• Un Llais Cymru	£308.00 (siec 101311)
• SLCC Aelodaeth	£43.00 (siec 101312)
• Swyddfa Bost Criccieth	£67.00 (siec 101313)
• Prince of Wales	£142.00 (siec 101314)
• Huw Garmon	£150.00 (siec 101315)*
• Noticeboards Online Ltd	£2822.16(siec 101316)

*Nid oedd y siec £150 godwyd ym Mis Rhagfyr ar gyfer Prosiect Cofio Cyfraniad Criccieth wedi'i dderbyn felly codwyd un newydd yn y cyfarfod.

Penderfyniad: Rhoddwyd caniatâd i'r Clerc i dalu'r biliau.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.10 y.h.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Tref ar **nos Fawrth 9 Ebrill 2019**.

****Bydd y rhaglen yma yn cau 1 Ebrill 2019****